



Cyngor Caerdydd - Mai 2026

## Arholiad CDLI Newydd Caerdydd

Sesiwn Gwrandawriad 14  
Dyluniad a Materion Eraill

Datganiad Cyngor HS14.01  
mewn Ymateb i Gwestiynau'r  
Arolygwyr yn ID08n



[www.cdllcaerdydd.co.uk](http://www.cdllcaerdydd.co.uk)



02920 872087



[CDL@caerdydd.gov.uk](mailto:CDL@caerdydd.gov.uk)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/  
This document is available in English



**Cyngor Caerdydd**  
**Cynllun Datblygu Lleol Newydd**  
**Archwiliad**

**Sesiwn Gwrandawriad 14 – 09.30 – 13.00, 1 Gorffennaf 2026**

**Rhithwir**

**Dyluniad a Materion Eraill**

**Mater - A yw'r polisiau sy'n ymwneud â dylunio, adeiladau uchel, cyfleusterau cymunedol, mannau agored a chreu lleoedd yn gyfiawn, yn glir ac yn effeithiol wrth sicrhau datblygiad cynaliadwy o ansawdd uchel.**

**1. Agor a chyflwyniadau**

**2. Dylunio**

2.1 Sut mae fframwaith dylunio cyffredinol y Cynllun yn sicrhau bod datblygiad yn cyflawni canlyniadau o ansawdd uchel sy'n nodweddiadol o'r ardal leol ac yn ymatebol i gymeriad Caerdydd, yn hytrach nag atebion dylunio generig?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod fframwaith dylunio cyffredinol y Cynllun yn sicrhau datblygiad o ansawdd uchel a nodedig yn lleol trwy ymgorffori ymagwedd seiliedig ar le, dan arweiniad cyd-destun wrth wraidd pob polisi dylunio. Yn hytrach na derbyn datrysiadau dylunio generig, mae'r fframwaith yn gofyn am gynigion i ymateb yn uniongyrchol i ardaloedd amrywiol eu cymeriad yn y ddinas. Cyflawnir hyn trwy gyfuniad o gyfeiriad polisi strategol a meini prawf dylunio manwl.

Yn gyntaf, mae'r Cynllun yn sefydlu disgwyliad clir bod yn rhaid i bob datblygiad atgyfnerthu hunaniaeth unigryw cymdogaethau Caerdydd. Mae polisiau yn pwysleisio deall cyd-destun lleol ac yn gofyn am ymatebion dylunio sy'n gwella'r rhinweddau hyn. Mae hyn yn gofyn i ymgeiswyr ddangos sut mae eu cynigion yn adlewyrchu rhinweddau penodol eu safle a'u hamgylchoedd.

Yn ail, mae'r fframwaith yn integreiddio egwyddorion creu lleoedd sy'n gyson â pholisi cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru), gan sicrhau bod datblygiad yn cyfrannu at leoedd wedi'u cynllunio'n dda, cynaliadwy a chydlynol yn gymdeithasol. Mae Polisi SP4 yn gofyn am safonau uchel o ran pensaernïaeth, ardal gyhoeddus, seilwaith gwyrdd, a hygyrchedd ac athreiddedd.

Yn drydydd, mae'r Cynllun hefyd yn defnyddio canllawiau atodol (uwchgynlluniau, codau dylunio, a CCA penodol i ardal) i drosi egwyddorion strategol yn ddisgwyliadau

dylunio manwl penodol i leoliad. Mae'r offer hyn yn rhoi eglurder ar ddeunyddiau, graddfa, cynllun, a thriniaeth tirlunio sy'n briodol i wahanol rannau o'r ddinas.

Yn olaf, mae'r fframwaith polisi yn gofyn am ddatganiadau dylunio a mynediad cadarn, dadansoddiad cyd-destunol, ac, lle bo'n berthnasol, glynu wrth fframweithiau penodol i'r safle ar gyfer dyraniadau strategol. Mae'r ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth hon yn sicrhau bod cynigion yn dangos ymateb clir, y gellir ei gyfiawnhau i gymeriad, treftadaeth ac ymdeimlad o le Caerdydd.

Mae'r Cyngor o'r farn bod y mecanweithiau hyn gyda'i gilydd yn sicrhau bod datblygiad ledled Caerdydd nid yn unig o ansawdd uchel ond hefyd wedi'i wreiddio mewn hynodrwydd lleol, gan atgyfnerthu hunaniaeth y ddinas.

2.21 ba raddau y mae'r polisiâu dylunio yn darparu sylfaen glir a chyson ar gyfer gwneud penderfyniadau, tra'n cadw digon o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau safle-benodol?

### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod y polisiâu dylunio yn y Cynllun yn darparu sylfaen glir a chyson ar gyfer gwneud penderfyniadau trwy sefydlu set gref, gydlynol o egwyddorion sy'n berthnasol ar draws pob math o ddatblygiad, tra ar yr un pryd yn cadw digon o hyblygrwydd i ymateb i gyd-destunau safle-benodol amrywiol y ddinas. Mae'r cydbwysedd hwn yn cael ei gyflawni trwy strwythur, geiriad a mecanweithiau cefnogol y fframwaith polisi dylunio.

Mae'r Cynllun yn cynnig eglurder a chysondeb trwy ei bwyslais ar greu lleoedd, dylunio o ansawdd uchel, a datblygiad dan arweiniad cyd-destun. Mae Polisi SP4 yn nodi disgwyliadau sy'n ymwneud â chymeriad, nodweddion pwysig, seilwaith gwyrdd, hygyrchedd ac athreiddedd, eglurder, datblygu ynni-ffeithlon sy'n ymateb i'r hinsawdd, cymdogaethau cynaliadwy defnydd cymysg, diogelwch cymunedol, dwysedd, ailddefnyddio adeiladau nodedig, dylunio cynhwysol, amwynder preswyl, a hunaniaeth. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â chanllawiau cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, gan sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac ymgeiswyr yn gweithredu o fewn amgylchedd polisi sydd wedi'i ddiffinio'n dda. Mae'r defnydd o bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf yn cryfhau cysondeb ymhellach trwy ddarparu profion tryloyw, y gellir eu hailadrodd ac y gellir asesu cynigion yn eu herbyn.

Ar yr un pryd, mae'r Cynllun yn osgoi dull rhy ragnodol neu anhyblyg trwy ymgorffori hyblygrwydd yn ei fframwaith dylunio. Mae polisiâu wedi'u fframio'n fwriadol fel bod angen ymateb cyd-destunol yn hytrach na datrysiad dylunio unffurf, gan gydnabod ardaloedd amrywiol eu cymeriad Caerdydd. Mae hyn yn caniatáu i benderfynwyr ystyried nodweddion lleol, asedau treftadaeth, topograffeg a hunaniaeth gymunedol wrth werthuso cynigion. Bydd canllawiau atodol (fel codau dylunio, uwchgynlluniau, a CCAau ardal-benodol) yn cynnig naratif pellach, gan gynnig disgwyliadau manwl lle bo angen.

Mae'r gofyniad am ddatganiadau dylunio a mynediad cadarn a dadansoddiad cyd-destunol yn sicrhau bod hyblygrwydd yn cael ei arfer yn gyfrifol. Rhaid i ymgeiswyr gyfiawnhau sut mae eu cynigion yn ymateb i nodweddion unigryw eu safle, gan atal ymadawiadau mympwyol i ffwrdd o bolisi tra'n galluogi atebion dylunio creadigol, pwrpasol.

Ar y cyfan, mae'r Cyngor o'r farn bod y polisïau dylunio yn taro cydbwysedd effeithiol: maent yn darparu sylfaen gyson, sy'n cael ei yrru gan bolisi ar gyfer gwneud penderfyniadau, ond maent yn cadw'r hyblygrwydd sy'n angenrheidiol i ddarparu ar gyfer lleoedd amrywiol Caerdydd a sicrhau bod datblygiad yn ymateb yn sensitif ac yn briodol i'w cyd-destun penodol.

2.3 Sut mae polisïau dylunio'r Cynllun yn integreiddio ystyriaethau hygrychedd, cynhwysiant ac anghenion gwahanol grwpiau defnyddwyr ar draws datblygiadau o bob math a maint.

#### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn integreiddio hygrychedd, cynhwysiant, ac anghenion gwahanol grwpiau defnyddwyr trwy ymgorffori'r ystyriaethau hyn fel egwyddorion craidd yn ei bolisïau, gan sicrhau eu bod yn berthnasol i bob math a graddfa o ddatblygiad.

Mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad fod yn hygrych i bob defnyddiwr, waeth beth fo'u hoedran, eu gallu neu eu symudedd. Cyflawnir hyn drwy feini prawf xi Polisi SP4 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad greu amgylcheddau cynhwysol lle mae adeiladau, strydoedd a gofodau sy'n deillio o hynny yn hygrych i bob defnyddiwr trwy gydol y dydd a, lle bo'n bosibl, y gellir eu haddasu i newidiadau mewn iechyd a gofynion cymdeithasol, economaidd, technolegol ac amgylcheddol yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod adeiladau, strydoedd a mannau agored yn cael eu defnyddio gan bawb heb yr angen am addasu.

Mae cynhwysiant yn cael ei gryfhau ymhellach trwy ymrwymiad y Cynllun i degwch cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Mae polisïau yn gofyn i ddatblygiad ystyried anghenion teuluoedd, pobl hŷn, pobl anabl, plant, a grwpiau agored i niwed. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn disgwyliadau ar gyfer tai deiliadaeth gymysg, cartrefi addasadwy a gydol oes, mannau gwyrdd hygrych, ac ardaloedd chwarae a hamdden diogel, cynhwysol. Mae'r Cynllun hefyd yn cefnogi seilwaith teithio llesol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer pob defnyddiwr, gan gynnwys defnyddwyr cadair olwyn, beicwyr o wahanol alluoedd, a'r rhai sydd â namau synhwyraidd.

Mae'r Cynllun yn cyd-fynd â gofynion polisi cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, gan sicrhau bod dylunio cynhwysol yn cael ei ymgorffori wrth ddechrau uwchgynllunio safleoedd. Bydd hyn yn cael ei ategu gan CCAu a chodau

dylunio a fydd yn darparu canllawiau ar weithredu egwyddorion dylunio cynhwysol mewn cyd-destunau penodol.

Mae'r gofyniad am ddatganiadau dylunio a mynediad yn sicrhau bod rhaid i ymgeiswyr ddangos yn benodol sut mae hygyrchedd a chynhwysiant wedi siapio eu cynigion. Mae hyn yn creu proses dryloyw, atebol sy'n sicrhau bod anghenion grwpiau defnyddwyr amrywiol yn cael eu hystyried gydol y broses ddylunio.

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor o'r farn bod polisïau dylunio'r Cynllun yn integreiddio hygyrchedd a chynhwysiant yn gynhwysfawr ac yn gyson.

2.4 Ym mha ffyrdd y mae'r polisïau dylunio yn cefnogi amcanion datblygu cynaliadwy, gan gynnwys gwrthsefyll newid hinsawdd, teithio llesol, ac addasrwydd hirdymor adeiladau a lleoedd?

### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod y polisïau dylunio yn y Cynllun yn cefnogi amcanion datblygu cynaliadwy yn gryf trwy ymgorffori gwytnwch yn wyneb yr hinsawdd, teithio llesol, bod yn addasadwy yn yr hirdymor fel elfennau craidd dylunio o ansawdd uchel. Yn hytrach na thrin cynaliadwyedd fel thema ar wahân, mae'r Cynllun yn ei integreiddio ledled y fframwaith polisi, gan sicrhau bod pob datblygiad yn cyfrannu at drawsnewidiad Caerdydd i fod yn ddinas garbon isel, wydn ac sy'n addas i'r dyfodol.

Mae polisïau'r Cynllun yn hyrwyddo gwytnwch hinsawdd trwy ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu ymateb i risgiau amgylcheddol ac amodau hinsawdd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys disgwyliadau ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (SDCau), cynlluniau all wrthsefyll llifogydd, seilwaith gwyrdd a glas, ac ymgorffori nodweddion naturiol i liniaru gwres, rheoli dŵr wyneb, a gwella bioamrywiaeth.

Mae'r Cynllun hefyd yn blaenoriaethu teithio llesol, gan ymgorffori cerddadwyedd a symudiad cynaliadwy i ddyluniad strydoedd, cymdogaethau a safleoedd strategol. Mae polisïau yn gofyn am lwybrau cerdded a beicio diogel, uniongyrchol a deniadol, sy'n integreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus, a chynlluniau sy'n lleihau dibyniaeth ar geir. Mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion polisi cenedlaethol ac yn cefnogi ffyrdd iachach o fyw, llai o allyriadau, a symudedd mwy cynhwysol.

O ran bod yn addasadwy yn yr hirdymor, mae'r Cynllun yn hyrwyddo atebion dylunio hyblyg, sy'n addas i'r dyfodol a all ymateb i anghenion cymdeithasol, technolegol ac amgylcheddol sy'n newid. Mae polisïau'n annog ffurfiau adeiladu addasadwy, cartrefi gydol oes, cynlluniau defnydd cymysg, ac ardal gyhoeddus sy'n gallu esblygu dros amser. Mae hyn yn lleihau'r angen am ôl-osod costus ac yn cefnogi patrymau twf cynaliadwy. Mae'r pwyslais ar egwyddorion dylunio ynni-effeithlon, ac ar yr economi gylchol yn cryfhau cynaliadwyedd tymor hir ymhellach.

Bydd y fframwaith polisi hwn yn cael ei gefnogi gan CCA, codau dylunio, ac uwchgynlluniau a fydd yn darparu offer ymarferol ar gyfer gweithredu'r amcanion hyn. Yn y cyfamser, mae'r gofyniad am ddatganiadau dylunio a mynediad yn sicrhau bod

yn rhaid i ymgeiswyr ddangos sut mae egwyddorion cynaliadwyedd wedi siapio eu cynigion.

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor o'r farn bod polisiau dylunio'r Cynllun yn darparu dull cynhwysfawr ac integredig o ddatblygu cynaliadwy, gan sicrhau bod adeiladau a lleoedd newydd yn wydn, yn garbon isel, yn hygyrch ac yn gallu addasu i anghenion hirdymor Caerdydd.

2.5 Sut mae polisiau'r Cynllun mewn perthynas â sicrhau dylunio cynaliadwy o ansawdd da wedi cael eu dylanwadu gan brofiad datblygiadau diweddar ar raddfa fawr yn y Ddinas, megis yng Ngogledd-orllewin Caerdydd?

### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod polisiau'r Cynllun ar sicrhau dylunio cynaliadwy o ansawdd da wedi cael eu dylanwadu gan y profiad ymarferol a'r heriau a wynebwyd wrth gyflawni datblygiadau diweddar ar raddfa fawr, yn fwyaf arbennig y safle strategol yng Ngogledd-orllewin Caerdydd. Mae'r datblygiadau hyn wedi darparu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda a lle mae angen cryfhau polisi, gan ysgogi fframwaith dylunio mwy cadarn a rhagweithiol yn y Cynllun newydd.

Amlygodd y profiad yng Ngogledd-orllewin Caerdydd bwysigrwydd uwchgynllunio cryfach ymlaen llaw i sicrhau datblygiad cydlynol, dan arweiniad lleoedd ar draws safleoedd mawr, aml-gam. Mewn ymateb, mae'r Cynllun yn rhoi mwy o bwyslais ar uwchgynlluniau cynhwysfawr, codau dylunio, a strategaethau fesul cam i sicrhau cysondeb, cydlynol ac ansawdd creu lleoedd hirdymor. Fe wnaethant hefyd sicrhau cyflawni seilwaith cymunedol a thrafnidiaeth fesul cam law yn llaw â chyflawni canolfannau lleol ac ardal, y mae'r angen amdanynt wedi'u hymgorffori ymhellach trwy gytundebau A106 cynhwysfawr ar draws y safle.

Mae'r datblygiad hefyd wedi tanlinellu'r angen am ofynion cynaliadwyedd a gwytnwch hinsawdd mwy penodol. Er bod Gogledd Orllewin Caerdydd yn ymgorffori seilwaith gwyrdd a llwybrau teithio llesol, datgelodd graddfa'r safle gyfleoedd ar gyfer integreiddio cryfach o ran SDCau, rhwydweithiau bioamrywiaeth, a dylunio carbon isel. Mae'r Cynllun newydd felly yn cryfhau'r gofynion ar gyfer gwytnwch yn wyneb yr hinsawdd, datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, a dylunio ynni-effeithlon.

Ar ben hynny, mae'r profiad o ddarparu cymuned fawr, defnydd cymysg yn tynnu sylw at bwysigrwydd addasrwydd hirdymor a seilwaith cymdeithasol. Mae'r Cynllun bellach yn rhoi mwy o bwyslais ar ffurfiau adeiladu hyblyg, tai deiliadaeth gymysg, cyfleusterau cymunedol, a mannau cyhoeddus a all esblygu dros amser. Mae hyn yn adlewyrchu gwersi am yr angen i ddatblygiadau gefnogi demograffeg newidiol, newidiadau technolegol, a newid i amodau hinsawdd yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor o'r farn bod polisiau dylunio'r Cynllun wedi'u llunio gyda chydabyddiaeth glir i'r ffaith bod angen fframweithiau dylunio mwy manwl ar

ddatblygiadau ar raddfa fawr. Mae'r gwersi o Ogledd Orllewin Caerdydd wedi arwain at ymagwedd polisi sy'n cael ei yrru gan gynaliadwyedd ac sy'n canolbwyntio ar leoedd, gan sicrhau bod safleoedd strategol yn y dyfodol yn darparu lleoedd o ansawdd uchel, gwydn â chysylltiadau da yn gyson.

### **3. Adeiladau Uchel**

3.1 A yw'r Cynllun yn gwahaniaethu rhwng lleoliadau lle mae adeiladau uchel yn cael eu cefnogi'n weithredol, lleoliadau lle gallant fod yn dderbyniol mewn egwyddor, a lleoliadau lle byddent yn amhriodol?

#### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn gwahaniaethu rhwng lleoliadau lle mae adeiladau uchel yn cael eu cefnogi, lle y gallent fod yn dderbyniol, a lleoliadau lle byddent yn amhriodol? Caiff hyn ei gyflawni trwy ymagwedd dan arweiniad polisi, seiliedig ar feini prawf yn hytrach na map parthau anhyblyg. Mae polisi adeiladau tal y Cynllun yn sefydlu rhesymeg ofodol glir i arwain uchder, gan sicrhau bod adeiladau uchel yn atgyfnerthu patrwm twf strategol y ddinas ac yn diogelu asedau treflun a threftadaeth sensitif.

Mae'r Cynllun yn nodi bod adeiladau uchel yn cael eu cefnogi'n weithredol mewn lleoliadau hygyrch iawn, lle mae dwysedd uwch yn cyd-fynd â'r strategaeth ofodol, lle mae hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus ar ei gryfaf, a lle gall adeiladau uchel gyfrannu'n gadarnhaol at y nenlinell a'r amcanion adfywio. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u clustnodi fel lleoliadau lle gellir lletya uchder heb danseilio cymeriad lleol.

Mae'r Cynllun hefyd yn clustnodi lleoliadau lle gall adeiladau uchel fod yn dderbyniol mewn egwyddor, yn amodol ar fodloni meini prawf dylunio, treflun ac amgylcheddol llym. Yn yr ardaloedd hyn, nid yw uchder yn cael ei ddiystyru ond rhaid ei gyfiawnhau trwy ansawdd dylunio eithriadol, rhesymeg gref o ran creu lleoedd, a thystiolaeth y gellir lliniaru effeithiau ar olygfeydd, treftadaeth a'r microhinsawdd yn llwyddiannus.

I'r gwrthwyneb, mae'r Cynllun yn gwneud yn glir y byddai adeiladau uchel yn amhriodol mewn cyd-destunau sensitif neu ag adeiladau isel, gan gynnwys ardaloedd cadwraeth, treflun hanesyddol, a chymdogaethau maestrefol. Yn y lleoliadau hyn, byddai adeiladau uchel yn gwrthdaro â chymeriad sefydledig, yn niweidio golygfeydd allweddol, neu'n tanseilio lleoliad asedau treftadaeth.

Ar y cyfan, mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn darparu dull strwythuredig wedi ei deilwra tuag at adeiladau uchel, gan sicrhau bod uchder yn cael ei gyfeirio at leoliadau priodol tra'n atal datblygu niweidiol neu sydd allan o'i gyd-destun. Mae'r gwahaniaeth hwn yn cefnogi rheoli nenlinell yn gydlynol ac yn atgyfnerthu strategaeth ofodol a chymeriad treflun Caerdydd.

3.2 Pa mor glir y mae'r Cynllun yn diffinio beth yw adeilad uchel y tu allan i ganol y ddinas, ac a yw'r diffiniad hwn yn ddigon manwl i sicrhau bod y polisi'n cael ei gymhwyso'n gyson ar draws gwahanol gyd-destunau?

**Ymateb:**

Mae'r Cynllun yn diffinio beth yw adeilad uchel y tu allan i ganol y ddinas neu Fae Caerdydd yn bennaf trwy uchder cymharol ac effaith ar y treflun, yn hytrach na throthwy rhifiadol sefydlog. Mae'r dull hwn yn caniatáu hyblygrwydd ac yn golygu bod y tu allan i ganol y ddinas (lle mae uchder adeiladau yn is ac ardaloedd cymeriad yn fwy amrywiol) mae'r diffiniad yn dod yn fwy dibynnol ar gyd-destun gan ganolbwyntio ar ffactorau fel amlygrwydd gweledol, effaith ar y nenlinell, perthynas â chymeriad lleol, ac effeithiau ar asedau treftadaeth. Mae hyn yn sicrhau y gall y Cyngor ymateb yn sensitif i wahanol gyd-destunau.

Mae'r Cyngor o'r farn bod y dull hwn yn cael ei gryfhau gan ei bwyslais ar ddadansoddiad cyd-destunol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos perthynas adeilad arfaethedig â'i amgylchoedd. Mae hyn yn helpu i angori'r diffiniad o adeilad uchel mewn cymeriad lleol yn hytrach na metrigau mympwyol.

Darperir rhagor o fanylion ar hyn mewn Canllaw Cynllunio Atodol.

3.3 Sut mae'r polisiâu yn sicrhau bod adeiladau uchel yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at dreflun, nenlinell a chymeriad lleol, gan gynnwys gwarchod golygfeydd pwysig ac asedau treftadaeth?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn sicrhau bod adeiladau uchel yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at dreflun, nenlinell, a chymeriad lleol trwy ymgorffori fframwaith polisi trylwyr, wedi'i arwain gan ddyllunio sy'n ei gwneud yn ofynnol i uchder fod wedi ei gyfiawnhau, ei fod yn briodol yn gyd-destunol, ac yn fuddiol i'r amgylchedd trefol ehangach. Mae'r Cynllun yn trin adeiladau uchel fel ffurfiau eithriadol o ddatblygiad y mae'n rhaid iddynt wella, yn hytrach na thanseilio, cymeriad, treftadaeth a golygfeydd allweddol Caerdydd.

Mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynnig adeilad uchel gynnal asesiadau treflun ac effaith weledol cynhwysfawr, gan sicrhau bod eu heffaith ar y nenlinell, ardaloedd cymeriad lleol, a golygfeydd strategol wedi cael ei ddeall yn llawn. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o olygfeydd o bellter, ffyrdd dynesu allweddol i'r ddinas, a lleoliad asedau treftadaeth fel ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig, a henebion cofrestredig. Mae hyn yn sicrhau bod angen i gynigion ar gyfer adeiladau uchel ddangos y byddant yn diogelu neu'n gwella asedau gweledol a diwylliannol pwysig.

Mae'r Cynllun hefyd yn pwysleisio dylunio sy'n ymateb i gyd-destun, sy'n ei gwneud yn ofynnol i adeiladau uchel gysylltu'n gadarnhaol â'u hamgylchedd agos o ran graddfa, mas, deunyddiau, a'r ardal gyhoeddus. Mae hyn yn atal cyferbyniadau uchder sydyn neu ymwthiol ac yn sicrhau bod adeiladau uchel yn cyfrannu at greu lleoedd

cydlynol. Mae'r Cynllun ymhellach yn gofyn am gynigion i ddarparu pensaernïaeth o ansawdd uchel, ffrytiadau llawr gwaelod gweithredol, a mannau cyhoeddus wedi'u cynllunio'n dda, gan sicrhau bod adeiladau uchel yn gwella profiad cerddwyr a chymeriad lleol ar lefel y stryd.

Er mwyn diogelu nenlinell y ddinas, mae'r Cynllun yn cyfeirio adeiladau uchel i leoliadau lle gellir lletya uchder heb niweidio silwét Caerdydd na thaflu cysgod dros ardaloedd sensitif. Mae'r rhesymeg ofodol hon yn cael ei atgyfnerthu gan feini prawf sy'n ymwneud â microhinsawdd, bwrw cysgod, golau dydd ac effeithiau gwynt, gan sicrhau nad yw adeiladau uchel yn creu amodau amgylcheddol anffafriol.

Mae diogelu treftadaeth wedi'i ymgorffori trwy'r fframwaith polisi. Mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i adeiladau uchel warchod neu wella lleoliad asedau treftadaeth, osgoi dominyddu treflun hanesyddol, a pharchu graddfa a graen cymdogaethau hŷn. Mae hyn yn sicrhau y cyflwynir uchder dim ond lle y gall gydfodoli â ffabrig hanesyddol Caerdydd .

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn sicrhau cyfraniadau cadarnhaol gan adeiladau uchel trwy gyfuno gosod cyfeiriad gofodol cryf, meini prawf dylunio manwl, a gofynion asesu cadarn. Mae hyn yn sicrhau bod adeiladau uchel yn atgyfnerthu hunaniaeth Caerdydd, yn diogelu golygfeydd ac asedau treftadaeth allweddol, ac yn cyfrannu'n ystyrlon at ansawdd y dreiflun a'r nenlinell.

3.4 Sut mae'r Cynllun yn mynd i'r afael ag effeithiau ehangach adeiladau uchel ar ardaloedd cyfagos, gan gynnwys amwynder, microhinsawdd, capasiti seilwaith a lles?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn mynd i'r afael â'r effeithiau ehangach hyn drwy'r dulliau canlynol.

O ran effeithiau amwynder, mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i adeiladau uchel warchod treiddiad golau dydd a golau'r haul, preifatrwydd ac edrych dros, bwrw cysgod dros gartrefi, strydoedd a mannau cyhoeddus ac ansawdd a defnyddioldeb seilwaith gwyrdd.

O ran effeithiau microhinsawdd gall adeiladau uchel dwnelu gwynt, chwythu gwynt tuag i lawr, bwrw cysgod, ac effeithiau ynys wres. Mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â'r rhain trwy ofynion gwytnwch hinsawdd Polisi SP20, pwyslais Polisi SP4 ar ddylunio o ansawdd uchel a seilwaith gwyrdd a'r gofynion ar gyfer rhwydweithiau ecolegol gwydn, sy'n helpu i gymedroli effeithiau microhinsawdd. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i adeiladau uchel ymgorffori mesurau fel plannu podiwm, coed stryd, dyluniad i liniaru gwynt, a bylchau digonol rhwng tyrau.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod adeiladau uchel yn rhoi mwy o bwysau ar rwydweithiau trafndiaeth, cyfleustodau, draenio a SDCau a seilwaith cymdeithasol (ysgolion, cyfleusterau iechyd) ac mae Polisi SP3 yn gofyn am nodi anghenion seilwaith yn gynnwys trwy uwchgynllunio ac felly rhaid i adeiladau uchel ddangos bod capasiti seilwaith yn ddigonol a bod SDCau, perygl llifogydd ac effeithiau ecolegol yn cael eu hystyried yn llawn.

Mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais cryf ar les, iechyd a mynediad at natur. Felly, rhaid i adeiladau uchel gyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad treflun a nenlinell, darparu ardal gyhoeddus o ansawdd uchel, ac osgoi creu amgylcheddau gelyniaethus (e.e., twneli gwynt, manau dan gysgod) a chefnogi mynediad at seilwaith gwyrdd a theithio llesol.

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn mynd i'r afael ag effeithiau ehangach adeiladau tal trwy fframwaith polisi cynhwysfawr sy'n gofyn am ddiogelu amwynderau trwy osod mas a dylunio'n ofalus, lliniaru effeithiau microhinsawdd trwy seilwaith gwyrdd a dylunio sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, arddangos capasiti seilwaith digonol a gwella lles trwy ardal gyhoeddus o ansawdd uchel a mynediad i natur

#### **4. Cyfleusterau Cymunedol**

4.1 Sut mae'r Cynllun yn nodi'r angen am gyfleusterau cymunedol newydd neu well, a sut mae'r dystiolaeth hon yn cael ei hadlewyrchu yn y strategaeth ofodol ac wrth ddyrannu'r safleoedd?

##### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn nodi'r angen am gyfleusterau cymunedol newydd a gwell trwy sylfaen dystiolaeth glir a chynhwysfawr. Mae'r dystiolaeth hon yn tynnu sylw at yr angen am gyfleusterau cymunedol newydd neu well, gan gynnwys ysgolion, cyfleusterau iechyd, manau agored, a chanolfannau cymunedol.

Mae'r strategaeth ofodol yn adlewyrchu'r dystiolaeth hon yn uniongyrchol trwy gyfeirio twf i leoliadau cynaliadwy lle gellir darparu seilwaith cymunedol, blaenoriaethu ardaloedd adfywio sydd â diffygion presennol, ac ymgorffori egwyddorion creu lleoedd i sicrhau bod datblygiad newydd yn ffurfio cymdogaethau cyflawn, wedi'u gwasanaethu'n dda.

Mae dyraniadau safleoedd yn yr un modd yn cael eu harwain gan dystiolaeth. Mae'n ofynnol i safleoedd strategol ddarparu neu gyfrannu at ysgolion, canolfannau iechyd, canolfannau cymunedol, a manau agored, gyda gofynion seilwaith wedi'u nodi'n glir mewn polisi.

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn dangos dull cydlynol, sy'n cael ei arwain gan seilwaith sy'n sicrhau bod twf yn cael ei gefnogi gan gyflenwi cyfleusterau cymunedol hanfodol yn amserol.

4.2 Ym mha ffyrdd y mae'r Cynllun yn cefnogi cyfranogiad y gymuned wrth lunio darpariaeth, lleoliad a dyluniad cyfleusterau cymunedol?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn cefnogi cynnwys y gymuned trwy ymgorffori ymgysylltu wrth greu a chyflawni cynlluniau. Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus helaeth ym mhob cam o'r broses o baratoi'r CDLI Newydd, gan alluogi cymunedau i ddylanwadu ar adnabod anghenion a lleoliadau a ffefrir ar gyfer cyfleusterau newydd.

Mae polisiâu o fewn y cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ymgymryd ag ymgysylltu â'r gymuned ar gynlluniau mawr, gan sicrhau bod dyluniad a chynllun ysgolion, canolfannau iechyd, mannau agored, a chanolfannau cymunedol yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae'r cynllun hefyd yn cefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned a chyfleusterau defnydd a rennir, gan roi rôl barhaus i drigolion wrth lunio sut mae seilwaith cymunedol yn cael ei ddarparu a'i ddefnyddio.

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn darparu mecanweithiau clir i gymunedau ddylanwadu ar ddarpariaeth, lleoliad a dyluniad cyfleusterau cymunedol.

4.3 Sut mae'r Cynllun yn cydbwysu hyblygrwydd ar gyfer anghenion cymunedol sy'n newid gyda sicrwydd ar gyfer darparu cyfleusterau yn y tymor hir?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn cydbwysu hyblygrwydd a sicrwydd trwy gyfuniad o warchod, gofynion cyflawni, a bod yn addasadwy. Mae polisiâu C1 a C2 yn rhoi sicrwydd trwy ddiogelu cyfleusterau presennol a gofyn am ddarpariaeth newydd neu well fel rhan o ddatblygiad.

Mae hyblygrwydd yn cael ei gefnogi drwy Bolisi C1, yn enwedig maen prawf v, sy'n gofyn am gyfleusterau i ganiatáu hyblygrwydd ac addasrwydd fel y gallant ddarparu ar gyfer ystod o ddefnyddiau cymunedol dros amser, heb gyfaddawdu eu prif swyddogaeth. Mae hyn yn sicrhau y gall darpariaeth ymateb i anghenion newidiol wrth gynnal fframwaith hirdymor clir ar gyfer cyflawni.

4.4 A ddylai theatrau, lleoliadau cerddoriaeth neu lety i glybiau chwaraeon gael eu cynnwys yn yr enghreifftiau o gyfleusterau cymunedol?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn nad yw theatrau a lleoliadau cerddoriaeth yn cael eu hystyried yn briodol i'w cynnwys fel enghreifftiau o gyfleusterau cymunedol yn y cyd-destun polisi hwn.

Er eu bod yn cyfrannu at fywyd diwylliannol, maent fel arfer yn fasnachol eu natur, yn

gwasanaethu dalgylch ehangach, ac yn cyd-fynd yn fwy â chynnig economi ddiwylliannol a nos y ddinas nag â'r seilwaith cymunedol craidd, o ddydd i ddydd y mae Polisiâu C1 a C2 yn ceisio ei gyflawni a'i ddiogelu.

Fodd bynnag, mae llety i glybiau chwaraeon yn yn cael eu cysylltu'n agos â darpariaeth hamdden ffurfiol ac yn gweithredu fel rhan annatod o gyfleusterau chwaraeon cymunedol. Byddai eu cynnwys felly yn gwella eglurder ac yn adlewyrchu'n well sut mae cyfleusterau o'r fath yn gweithredu yn ymarferol.

Cynigir y mân welliant canlynol i baragraff 7.120 (gweler y testun ychwanegol mewn print trwm isod)

*'Mae hyn yn cynnwys canolfannau cymunedol a manau cyfarfod, neuaddau cymunedol, dysgu cymunedol, canolfannau hamdden (**gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon cymunedol a thai clwb cysylltiedig**), llyfrgelloedd, canolfannau ieuencid a chyfleusterau crefyddol.*

Er mwyn cadw gwahaniaeth clir, gellir cyfeirio at theatrau a lleoliadau cerddoriaeth ym mharagraff 7.211 fel enghreifftiau o ddefnyddiau masnachol, os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol.

## **5. Mannau Agored**

5.1 Pan fo datblygiad yn effeithio ar fannau agored presennol, sut mae'r Cynllun yn sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth i wneud iawn yn briodol o ran maint, ansawdd, hygyrchedd a lleoliad?

### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y Cynllun yn sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth gwneud iawn am golli manau agored presennol yn briodol o ran maint, ansawdd, hygyrchedd a lleoliad trwy gyfuniad o'i fframwaith polisi strategol, polisiâu rheoli datblygu manwl, a safonau manau agored sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Yn gyntaf, mae'r Cynllun yn sefydlu rhagdybiaeth gref yn erbyn colli gofod agored presennol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos fod y gofod yn fwy na'r hyn sydd ei angen neu fod ei golli yn anochel. Lle mae colli yn cael ei gyfiawnhau, mae'r polisi Gofod Agored perthnasol yn gofyn am tebyg-am-debyg neu amnewid am well. Mae hyn yn sicrhau bod darpariaeth sy'n gwneud iawn yn gyfwerth neu'n fwy o ran maint, gan adlewyrchu safonau manau agored mabwysiedig y Cynllun.

Yn ail, mae'r Cynllun yn sicrhau ansawdd trwy ei gwneud yn ofynnol bod manau agored newydd yn bodloni'r meini prawf swyddogaethol, dylunio a defnyddioldeb a nodir ym mholisiâu creu lleoedd, seilwaith gwyrdd ac iechyd a lles y Cynllun. Mae'r polisiâu hyn gyda'i gilydd yn sicrhau bod darpariaeth i wneud iawn yn ddiogel,

deniadol, amlswyddogaethol, ac yn gallu darparu'r un buddion hamdden ac amgylcheddol â'r gofod sy'n cael ei golli.

Yn drydydd, mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â hygyrchedd trwy ei gwneud yn ofynnol bod mannau agored gwneud iawn wedi'u lleoli fel eu bod yn gwasanaethu'r un gymuned â'r ddarpariaeth bresennol. Mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion ehangach y Cynllun ar gyfer teithio llesol, cerdded, a mynediad teg i hamdden. Felly, rhaid i'r gofod newydd fod yn hygyrch ac yn ddiogel i'r boblogaeth yr effeithir arnynt, gan atal unrhyw ostyngiad yn y ddarpariaeth leol.

Yn olaf, mae'r Cynllun yn sicrhau lleoliad priodol trwy ei gwneud yn ofynnol bod gofod agored sy'n gwneud iawn yn cael ei ddarparu o fewn neu'n gyfagos i'r ardal sy'n profi'r golled, gan gynnal parhad rhwydweithiau seilwaith gwyrdd lleol ac osgoi dadleoli gwerth amwynder. Mae'r dull hwn yn cael ei atgyfnerthu gan bolisïau strategol sy'n ymwneud â choridorau gwyrdd, diogelu tirwedd, a'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach.

Mae'r Cyngor o'r farn bod y gofynion polisi hyn gyda'i gilydd yn sicrhau bod unrhyw ofod agored i wneud iawn yn ystyrllon, yn fuddiol yn lleol, ac yn cyd-fynd yn llawn â sylfaen dystiolaeth ac amcanion strategol y Cynllun, a thrwy hynny yn atal unrhyw golled net o ran swyddogaeth neu werth mannau agored yng Nghaerdydd.

5.2 Pa rôl mae ymgysylltu â'r gymuned yn ei chwarae wrth asesu, diogelu a gwella mannau agored?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod ymgysylltu â'r gymuned yn chwarae rhan ganolog ac aml-haenog wrth asesu, diogelu a gwella mannau agored o fewn y Cynllun.

Yn gyntaf, mae ymgysylltu yn cefnogi diogelu mannau agored trwy alluogi cymunedau i dynnu sylw at fannau o bwysigrwydd cymdeithasol, hamdden neu amgylcheddol arbennig. Trwy'r camau ymgynghori ar y CDLI Newydd, gall preswylwyr, grwpiau cymunedol, a rhanddeiliaid nodi mannau agored sydd angen eu diogelu, herio dyraniadau arfaethedig a allai fygwth ardaloedd gwerthfawr, a darparu tystiolaeth o anghenion lleol. Mae hyn yn cryfhau cadernid polisïau amddiffynnol y Cynllun ac yn sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu blaenoriaethau cymunedol.

Yn ail, mae ymgysylltu â'r gymuned yn cyfrannu at wella mannau agored trwy siapio dylunio a chyflawni darpariaeth newydd neu well. Mae pwyslais y Cynllun ar greu lleoedd a seilwaith gwyrdd yn gofyn i ddatblygwyr ymateb i'r cyd-destun lleol, ac mae mewnbwn y gymuned yn helpu i ddiffinio beth sy'n gyfystyr mannau agored o safon, hygyrch ac ystyrllon mewn gwahanol gymdogaethau. Mae ymgysylltu hefyd yn cefnogi nodi cyfleoedd ar gyfer mannau amlswyddogaethol, gwella bioamrywiaeth, a gwell hygyrchedd.

Yn gyffredinol, mae ymgysylltu â'r gymuned yn sicrhau bod ymagwedd y Cynllun at fannau agored yn ymatebol yn lleol, wedi ei seilio ar dystiolaeth ac wedi ei wreiddio'n y gymdeithas, gan alluogi'r Cynllun i ddiogelu mannau gwerthfawr ac arwain gwelliannau sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau cymunedau Caerdydd.

5.3 Sut mae'r polisïau yn gwahaniaethu rhwng swyddogaeth, amwynder a gwerth ansoddol mannau agored, a sut mae'r ystyriaethau hyn yn cael eu pwysoli wrth wneud penderfyniadau?

### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y Cynllun yn gwahaniaethu rhwng gwerth swyddogaethol, amwynder ac ansoddol mannau agored trwy ei sylfaen dystiolaeth, safonau mannau agored, a'i fframwaith polisi, gan sicrhau bod pob dimensiwn yn cael ei ystyried yn benodol wrth asesu cynigion a allai effeithio ar ddarpariaeth bresennol.

Yn gyntaf, mae'r Cynllun yn cydnabod gwerth swyddogaethol mannau agored trwy nodi eu prif rolau (megis hamdden, chwaraeon, a chwarae plant). Mae'r Arolwg Mannau Agored yn categoreiddio gofodau yn ôl eu swyddogaeth, gan alluogi'r Cynllun i benderfynu a yw gofod yn cyflawni rôl hanfodol na ellir ei adnewyddu'n hawdd. Wrth wneud penderfyniadau, rhoddir pwysau sylweddol ar werth swyddogaethol, yn enwedig lle mae'r gofod yn darparu cyfleusterau hamdden ffurfiol sy'n diwallu anghenion cymunedol a nodwyd.

Yn ail, mae'r Cynllun yn gwahaniaethu rhwng gwerth amwynder, sy'n ymwneud â chyfraniad gofod agored i gymeriad gweledol, a hamdden anffurfiol. Mae polisïau ar greu lleoedd, dylunio a chymeriad lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried sut mae mannau agored yn cyfrannu at leoliad cymdogaethau, cynnig rhyddhad mewn ardaloedd trefol dwys, a chefnogi lles bob dydd. Hyd yn oed lle mae gan ofod swyddogaeth ffurfiol sy'n gyfyngedig, gall gwerth amwynder uchel gyfiawnhau ei amddiffyn, yn enwedig mewn ardaloedd o ddiffyg mannau agored.

Yn drydydd, mae'r Cynllun yn ymgorffori gwerth ansoddol trwy asesu cyflwr, defnyddioldeb, hygyrchedd, ac ansawdd cyffredinol mannau agored. Wrth wneud penderfyniadau, defnyddir gwerth ansoddol i ddiogelu mannau o ansawdd uchel ac i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella lle mae ansawdd yn wael. Mae polisïau seilwaith gwyrdd ac iechyd y Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i unrhyw ddarpariaeth newydd neu sy'n gwneud iawn fod o ansawdd cydradd neu uwch, gan sicrhau nad oes unrhyw ddirywiad yn safon y ddarpariaeth.

Wrth bwysu'r ystyriaethau hyn, mae'r Cynllun yn mabwysiadu ymagwedd cytbwys, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Gwerth swyddogaethol sydd fel arfer yn cario'r pwysau mwyaf lle mae'r gofod yn cyflawni rôl strategol neu na ellir ei atgynhyrchu. Mae gwerth amwynder yn arbennig o ddylanwadol mewn ardaloedd trefol lle mae gofod agored yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad a lles. Mae gwerth ansoddol yn hysbysu a all gwella, yn hytrach nag amddiffyn, fod yn briodol, ond nid yw ansawdd gwael yn unig yn cael

ei drin fel cyfiawnhad dros weld colled. Yn gyffredinol, mae'r Cynllun yn sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu'r sbectwm llawn o fanteision mannau agored, gan atal asesiadau syml neu feintiol yn unig a chefnogi ymagwedd cyfannol tuag at amddiffyn a gwella.

## **6. Creu Lleoedd**

6.1 A yw'r Cynllun yn ddigon clir ar y gwahaniaeth rhwng creu lleoedd a chynlluniau bro?

### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y Cynllun yn darparu fframwaith cydlynol ar gyfer cynlluniau creu lleoedd a chynlluniau bro.

Mae'r Cynllun yn glir bod creu lleoedd yn *egwyddor strategol a throswaol* sy'n sail i'r Cynllun cyfan. Mae wedi'i ymgorffori yng ngweledigaeth, amcanion strategol, a pholisïau a arweinir gan ddylunio, gan adlewyrchu gofyniad PCC y dylai creu lleoedd lywio pob penderfyniad datblygu. Yn yr ystyr hwn, cyflwynir creu lleoedd fel ymagwedd cyffredinol tuag at greu lleoedd cynaliadwy, wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n gydlynol yn gymdeithasol ledled Caerdydd.

Mewn cyferbyniad, bwriedir i gynlluniau bro weithredu ar *lefel fwy lleol a phenodol i gymuned*, gan ddarparu canllawiau manwl ar gyfer cymdogaethau neu ardaloedd penodol. Mae'r Cynllun yn cyfeirio at gynlluniau bro fel offer a all gefnogi hynodrwydd lleol, arwain datblygiad ar lefel fwy mân ac adlewyrchu blaenoriaethau cymunedol.

I grynhoi, mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn ymgorffori creu lleoedd yn llwyddiannus fel egwyddor drefnu graidd ac yn cyfeirio'n glir at y gwahaniaeth rhwng hyn a chynlluniau bro sy'n gweithredu ar lefel fwy lleol a phenodol i gymuned.

6.2 A yw'r term 'Cynllun Bro' yn fwy priodol na Chynlluniau Creu Lleoedd ym Mholisi SP7?

### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod y term "*Cynllun Bro*" yn fwy priodol am y rhesymau canlynol:

Yn gyntaf, mae'r term "Cynllun Creu Lleoedd" yn anghyson â PCC, sy'n diffinio creu lleoedd fel egwyddor a phroses, nid math o gynllun. Mae defnyddio'r term ym Mholisi SP7 mewn peryg o greu dryswch rhwng gofyniad polisi cenedlaethol â dogfen ofodol leol, gan greu amwysedd y gellir ei osgoi.

Yn ail, mae'r term "Cynllun Bro" yn adlewyrchu pwrpas arfaethedig y dogfennau y cyfeirir atynt yn SP7 yn fwy cywir: fframweithiau gofodol lleol penodol sy'n mynegi cymeriad, blaenoriaethau dylunio, anghenion seilwaith, a dyheadau cymunedol. Mae'r derminoleg hon yn gwahaniaethu'n glir rhwng y cynlluniau ardal hyn a'r egwyddorion creu lleoedd cyffredinol sy'n berthnasol i bob datblygiad.

Yn drydydd, mae "Cynllun Bro" yn cyd-fynd ag arferion cynllunio sefydledig yng Nghymru, lle mae'r term yn cael ei ddefnyddio'n eang ar gyfer fframweithiau a arweinir gan y gymuned ac sy'n seiliedig ar ardal sy'n eistedd o dan y CDLI. Mae mabwysiadu'r derminoleg hon yn sicrhau cysondeb ac yn gwella dealltwriaeth y defnyddiwr.

Yn olaf, mae'r addasiad yn cryfhau cadernid y CDLI trwy wella cydlyniad, lleihau'r risg o gamddehongli, a sicrhau bod y polisi yn hawdd ei weithredu gan ymgeiswyr, cymunedau a phenderfynwyr.

Am y rhesymau hyn, mae'r Cyngor o'r farn bod y term "Cynllun Bro" yn fwy priodol.

6.3 Er cydnabod pwysigrwydd creu lleoedd a Siarter Creu Lleoedd Cymru, a oes adnodd mwy penodol ar gynlluniau bro y gellid cyfeirio ato ym mharagraff 6.72?

#### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn, er bod CDLI Newydd Adneuo Caerdydd yn tynnu sylw yn briodol at bwysigrwydd creu lleoedd a Siarter Creu Lleoedd Cymru, y gellid cryfhau paragraff 6.72 drwy gyfeirio at adnodd mwy penodol ac ymarferol ar gynlluniau bro. Y ffynhonnell fwyaf perthnasol ac awdurdodol yw'r Canllaw Cynlluniau Cynefin a gynhyrchwyd gan Cymorth Cynllunio Cymru (CCC/PAW) ar eu gwefan yn [Cynlluniau Cynefin – gan Cymorth Cynllunio Cymru](#)

Mae'r canllawiau hyn yn darparu cyngor manwl, cam wrth gam ar baratoi, cwmpas, cynnwys a natur cynlluniau bro yng Nghymru a arweinir gan y gymuned. Mae'n nodi sut y gall cynlluniau bro ategu Cynlluniau Datblygu Lleol, sut y dylent fod yn seiliedig ar dystiolaeth, a sut y gallant fynegi blaenoriaethau lleol mewn modd sy'n gyson â pholisi cenedlaethol. Yn wahanol i Siarter Creu Lleoedd Cymru, sy'n canolbwyntio ar egwyddorion trosfwaol, mae canllawiau CCC yn cynnig eglurder gweithredol, gan gynnwys dulliau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, mapio asedau lleol, nodi materion a chyfleoedd, a pharatoi camau gweithredu lleol cyflawnadwy.

Byddai cyfeirio at yr adnodd hwn felly yn gwella'r CDLI drwy:

- ddarparu diffiniad cliriach o beth yw cynllun bro a sut mae'n wahanol i egwyddorion creu lleoedd ehangach.
- cynnig cyfarwyddyd ymarferol i gymunedau a rhanddeiliaid a allai fod yn dymuno paratoi cynlluniau bro.
- sicrhau cysondeb ag arfer sefydledig a chanllawiau cydnabyddedig yng Nghymru
- cefnogi uchelgais y CDLI ar gyfer cynllunio lleol unigryw, sydd wedi ei hysbysu gan y gymuned

O ystyried hyn cynigir cynnwys cyfeiriad at yr adnodd hwn ym Mharagraff 6.72, felly ei fod yn darllen fel a ganlyn (ychwanegiadau mewn print trwm).

*'6.72 Mae cynnwys Cynlluniau Creu Lleoedd yn dibynnu ar ystod o ffactorau, gan gynnwys y cynnwys yn y CDLI Newydd a'r cyd-fynd â pholisi cynllunio yn ogystal â pholisiau neu strategaethau allweddol eraill, natur a graddfa'r ardal/safle, y materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â nhw a dyheadau cymunedol. Fodd bynnag, rhaid i Gynlluniau Creu Lleoedd gydymffurfio â'r CDLI Newydd ac ni allant ddyblygu na chyflwyno polisi newydd. Gellir dod o hyd i ragor o ganllawiau ar greu lleoedd yn y Siarter Creu Lleoedd - Comisiwn Dylunio Cymru **ac ar y wefan ganlynol a gynhyrchwyd gan Cymorth Cynllunio Cymru** <https://www.placeplans.org.uk/cy>.'*

## **7. Camau Gweithredu**